Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Cenarth

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Cenarth yn gymuned hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn barchus. Mae'r disgyblion yn dangos agwedd bositif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Ar adegau, mae'r profiadau dysgu yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, sy'n ennyn eu diddordeb. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei wreiddio a'i ddatblygu'n gyson, a chyfyng yw'r cyfleoedd i fod yn ddysgwyr ymholgar ac annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn dda erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Er hyn, cyfyng yw strategaethau darllen y lleiafrif yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a'i ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â'u themâu dysgu. Er hyn, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol, gydag arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a'r camau sydd eu hangen i wireddu hyn. Mae gweithgareddau monitro a gwerthuso'r ysgol yn graff ac yn gywir. Mae arweinwyr yn ystyried barnau'r disgyblion a'r llywodraethwyr yn ofalus gyda'u llais yn dylanwadu'n briodol ar gyfeiriad yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth yn glir â phawb ac mae cymuned yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn 'Dechrau da' i gael 'Dyfodol Disglair.' Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Mae angen i'r ysgol fynd i'r afael â'r pryderon diogelu yn ymwneud â safle'r ysgol.

# Argymhellion

**A1** **Ymateb i'r pryderon diogelu yn ymwneud â safle'r ysgol**

**A2** **Datblygu medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg**

**A3** **Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau**

**A4** **Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo medrau annibynnol disgyblion**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cenarth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 93 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 59 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 18 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 23.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 22.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/04/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.